Ymgynghoriad Penderfyniadau Anodd 2018-20

'DYWEDOCH CHI, GWNAETHOM NI'

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam

www.wrecsam.gov.uk | www.wrexham.gov.uk

Cyflwyniad

Ym mis Hydref a mis Tachwedd 2017, gofynnodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam i'r cyhoedd yn Wrecsam gymryd rhan yn yr ymgynghoriad 'Penderfyniadau Anodd', ar gyfer y penderfyniadau yr oedd yn rhaid i ni eu gwneud i gyfrannu at yr amcangyfrif o £13 miliwn y mae'n rhaid i ni ei arbed yn y ddwy flynedd nesaf.

Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys arolwg, digwyddiad stondin farchnad a gweithgaredd y cyfryngau cymdeithasol. Bu i gyfanswm o 3,797 o bobl gymryd rhan yn yr ymgynghoriad , a hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r bobl a'r grwpiau hynny a gymerodd ran.

Rhan bwysig iawn o unrhyw ymgynghoriad yw rhoi adborth i'r cyfranogwyr am yr hyn sydd wedi digwydd ers iddynt roi eu barn, a pha effaith a gafodd eu sylwadau. Diben y broses o ddarparu adborth yw gallu dangos lle mae safbwyntiau wedi cael effaith uniongyrchol ar gynnig, ac esbonio hefyd yr adegau hynny pan nad ydym wedi gallu gwneud popeth a awgrymwyd gan y cyhoedd (ac egluro'r rheswm dros hynny).

Felly, rydym yn cyflwyno'r adroddiad 'Dywedoch Chi, Gwnaethom Ni' i ddangos beth yw'r penderfyniadau terfynol i chi sydd wedi'u gwnaed am bob un o'r cynigion a gyflwynwyd ar gyfer yr ymgynghoriad.

Os hoffech ddarllen yr holl fanylion am y cynigion a wnaed gan y Cyngor, a chanlyniadau'r ymgynghoriad, mae'r adroddiad llawn ar gael yn www.yourvoicewrexham.co.uk

Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn ymgynghoriadau eraill a rhoi eich barn chi i Gyngor Wrecsam, beth am gofrestru i hwb ymgysylltu Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Wrecsam – Eich Llais Wrecsam http://www.yourvoicewrexham.co.uk/KMS/news.aspx?LoggingIn=tempVar&strTab=Home

[1] *Mae hyn yn darparu Lefel Hyder o fwy na 95% a Chyfyng Hyder o dan 5% (yn seiliedig ar 3,620 a ymatebodd i'r arolwg)

Lefel hyder yw mynegiant o ba mor hyderus y gall ymchwilydd o ran y o'r data a dderbyniwyd gan sampl. Mae lefelau hyder yn cael eu mynegi fel canran ac yn dangos pa mor aml y byddai'r ganran honno o'r boblogaeth darged yn rhoi ateb sydd o fewn y cyfwng hyder.

Cyfwng hyder yw'r ffin gwallau y byddai ymchwilydd yn ei brofi pe gallai ef neu hi ofyn cwestiwn ymchwil penodol, er enghraifft, i bob aelod o'r boblogaeth darged a derbyn yr un ymateb a gafwyd gan aelodau'r sampl yn yr arolwg.

Dadansoddiad o’r Arolwg

Sgôr cyfartalog

Yn hytrach na chyflwyno % o’r ymatebion a oedd yn cytuno/anghytuno gyda phob cynnig, rhoddwyd ‘Sgôr Cyfartalog’ i bob cynnig.

Mae hyn yn golygu, ar gyfer pob ymateb, y rhoddwyd sgôr o 2 ar gyfer pob ymateb o ‘Cytuno’n Gryf’, 1 ar gyfer ‘Cytuno’, 0 ar gyfer ‘Nid y naill na’r llall’, -1 ar gyfer ‘Anghytuno’ a sgôr o -2 am ‘Anghytuno’n Gryf’. Yna cafodd y sgorau hyn eu hychwanegu at ei gilydd a’u rhannu gyda chyfanswm nifer yr ymatebion i’r cwestiwn hwnnw er mwyn rhoi sgôr cyfartalog o rhwng -2 a 2.

Mae edrych ar ymatebion yn y dull hwn yn ein galluogi i ddangos cryfder y safbwynt yn fwy clir ar gyfer pob cynnig, ac felly mae’n rhoi darlun mwy cywir o’r canlyniadau.

YR ECONOMI

Roeddem yn cynnig:
Cyflwyno tâl ar gyfer cyfleusterau cyhoeddus

Mae'r Cyngor yn rheoli nifer o Gyfleusterau Cyhoeddus (h.y. toiledau) ar hyd a lled y fwrdeistref sirol. Mae system codi tâl eisoes yn weithredol yng nghyfleusterau cyhoeddus canol y dref (Stryd Henblas a St Giles Way). Cynigir ein bod hefyd yn codi tâl o 20c yn y cyfleusterau cyhoeddus yn Nhrefor, Y Waun a Froncysyllte i dalu am y costau glanhau a staffio. **Amcangyfrifir y gallai hyn gynhyrchu incwm ychwanegol o tua £5,000 yn 2018/19.**

Derbyniodd y cynnig hwn sgôr cyfartalog o **0.73**

Dywedoch Chi:

- Rydych yn cytuno â'r cynnig hwn cyhyd ag y bydd y cyfleusterau yn cael eu cynnal a'u cadw i safon uchel
- Roedd gennych bryderon na fyddai gan bobl newid neu arian ar gael o bosibl wrth ddefnyddio Cyfleusterau Cyhoeddus
- Dylai Cyfleusterau Cyhoeddus barhau i fod ar gael am ddim
- Roedd gennych bryderon y gallai'r costau gweinyddu sy'n gysylltiedig â chodi'r tâl fod yn uwch na'r incwm a gynhyrchir

Gwnaethom Ni:

Roedd mwyafrif o blaid codi tâl am ddefnyddio'r cyfleusterau cyhoeddus yn Nhrefor, Y Waun a Froncysyllte. Sefydlwyd y cynsail yn 2016 pan ddechreuodd y Cyngor godi tâl ar gyfer defnyddio cyfleusterau yn Stryd Henblas a Stryd Brook yng nghanol tref Wrecsam. Cynhelir gwaith pellach i adolygu'r buddsoddiad angenrheidiol er mwyn gallu gweithredu cais i godi tâl, gan gynnwys glanhau a rheoli'r safle, cyn y gellir symud y cynnig hwn ymlaen.

Roeddem yn cynnig:
Brecwast am ddim

Cynigir, o fis Medi 2018, y bydd y Cynllun Brecwast yn parhau i fod ar agor o 7.50am i 8.50am ond y byddai'n cynnwys dwy elfen. Byddai'n cynnig gwasanaeth gofal plant o 7.50am i 8.20am (lle codir tâl o £1) a brecwast iach o 8.20am i 8.50am (a fyddai'n parhau i fod am ddim). Os bydd plentyn yn cyrraedd ar ôl 8.20am ni chodir tâl, ond os bydd y rhieni yn awyddus i fanteisio ar y cynllun ac y bydd y plentyn yn cyrraedd rhwng 7.50am a 8.20am yna cynigir codi tâl o £1 y plentyn y diwrnod. **Amcangyfrifir y gallai hyn greu incwm ychwanegol o tua £106,000 yn 2018/19 a £52,000 pellach yn 2019/20.**

Derbyniodd y cynnig hwn sgôr cyfartalog o **0.77**

Dywedoch Chi:

- Ni fyddai rhai teuluoedd, yn arbennig y rhai â mwy nac un plentyn, yn gallu fforddio cost y gwasanaeth hwn
- Dylai teuluoedd incwm isel gael eu heithrio rhag gorfod talu'r tâl
- Cyfrifoldeb y Rhiant yw rhoi brecwast i blant ac nid y Cyngor
- Bod y swm arfaethedig o £1 yn swm rhesymol ac y dylid ei gyflwyno

Gwnaethom Ni:

Er bod yr adborth hwn yn awgrymu bod cytundeb cyffredinol i'r cynnig hwn, mae sylwadau eraill wedi pwysleisio na fydd rhai teuluoedd yn gallu fforddio cost y gwasanaeth hwn, yn arbennig os oes ganddynt fwy nac un plentyn yn yr ysgol. O ganlyniad, rydym yn ystyried ffi is ar gyfer plant ychwanegol.

Tybir hefyd y bydd y gwasanaeth hwn yn cael ei ddefnyddio gan rieni mewn cyflogaeth yn bennaf, oherwydd bydd yn rhoi mwy o hyblygrwydd iddynt gyda'u patrymau gwaith a bydd hefyd yn galluogi iddynt ymestyn eu horiau gwaith.

Mewn egwyddor, ni fydd angen y gwasanaeth hwn ar deuluoedd lle mae un neu'r ddau riant yn ddi-waith oherwydd gallant ollwng eu plant yn hwyrach ar gyfer yr elfen brecwast am ddim ac ni ddylent wynebu unrhyw faich ariannol ychwanegol.

Ni chodir tâl am y gwasanaeth hwn i blant sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Pan fydd ysgolion wedi cyflwyno cynllun brecwast am ddim yn annibynnol i'r Cyngor, mae pob un yn codi mwy na £1 ar hyn o bryd ar gyfer yr elfen gofal plant. Mae'r ystod o £1.60 i £4.00. Cynhelir ymgynghoriad pellach gydag ysgolion er mwyn cadarnhau'r dull newydd o godi tâl o fis Medi 2019.

Roeddem yn cynnig:

Adolygiad o'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd

Mae Cyngor Wrecsam yn rheoli nifer o lyfrgelloedd ar hyd a lled y fwrdeistref sirol. Er bod yn rhaid i'r Cyngor ddarparu gwasanaeth llyfrgell, mae'r ffordd y gwnawn hyn yn ôl ein disgresiwn ni. Yn 2018/19, mae'r Cyngor yn gwneud arbedion o £57,000 o fewn y Gwasanaeth Llyfrgelloedd fodd bynnag, hoffwn gael eich barn chi ar newidiadau pellach arfaethedig i'r gwasanaeth. Cynigir y cynhelir adolygiad llawn o'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd yn y blynyddoedd nesaf, er mwyn sicrhau ei fod yn gost effeithiol ac yn addas i'r diben. Gallai hyn gynnwys edrych ar newidiadau i'r ddarpariaeth gwasanaeth bresennol, gan gynnwys newidiadau posibl i leoliadau, mynediad at y gwasanaethau a modelau gweithredu amgen gan gynnwys perchenogaeth gymunedol. Yn amodol ar ganlyniad yr adolygiad, efallai y bydd angen buddsoddiad i ymateb i unrhyw newidiadau gwasanaeth arfaethedig sy'n deillio o'r adolygiad er mwyn galluogi i CBSW gynnal gwasanaeth llyfrgelloedd cyhoeddus gweladwy a hyfyw sy'n cyflawni Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru.

Derbyniodd y cynnig hwn sgôr cyfartalog o **0.23**

Dywedoch Chi:

- Roedd angen gwybodaeth bellach arnoch am y cynnig er mwyn gallu gwneud penderfyniad
- Mae llyfrgelloedd yn rhan bwysig o'r gymuned a dylai fod yn hygyrch i bawb
- Dylid cadw'r gwasanaeth llyfrgell a dylai'r llyfrgelloedd barhau ar agor
- Roedd angen adolygiad o'r gwasanaeth llyfrgelloedd a gallai fod yn fuddiol
- Roedd angen adolygiad o'r gwasanaeth llyfrgelloedd a gallai fod yn fuddiol

Gwnaethom Ni:

Cydnabyddir fod llyfrgelloedd yn rhan bwysig o'r gymuned ac mae angen iddynt fod ar gael i bawb; ac felly cynhelir adolygiad o'n llyfrgelloedd er mwyn sicrhau eu bod yn darparu gwasanaeth modern a hygyrch yn y dyfodol a sicrhau bod yr arian cyhoeddus sy'n cael ei fuddsoddi yn y gwasanaeth yn cael ei wario mor effeithlon ac effeithiol â phosibl. Daw'r adolygiad i ben yn ystod 2018/19 a byddwn yn cynnal ymgynghoriad gyda defnyddwyr gwasanaeth cyn y bydd yr argymhellion terfynol yn cael eu hystyried a'u mabwysiadu.

Gofynasom ni:

A oes yna unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ynghylch unrhyw beth yr ydych wedi ei ddarllen yn yr adran 'Tai a'r Economi'?

Dywedoch Chi:

- Bod gormod o arian yn cael ei wario yn uwchraddio Tai Cyngor
- Bod angen mwy o dai cymdeithasol fforddiadwy yn Wrecsam
- Cafwyd nifer o sylwadau ar y ffyrdd y gallai'r Cyngor wneud arbedion effeithlonrwydd
- Dylid cyflwyno gweithio ystwyth ar draws yr adran
- Dylai'r Cyngor ystyried lleihau costau a threuliau cynghorwyr yn hytrach na gwneud arbedion i'r gyllideb yn yr adran hon

Gwnaethom Ni:

Mae'n ofynnol i ni gwblhau gwaith ar dai cyngor i sicrhau eu bod yn cyflawni Safon Ansawdd Tai Cymru erbyn 2020 sy'n golygu buddsoddiad sylweddol. Mae'r Adran ar y trywydd iawn i gyflawni hyn. Mae Aelodau a Swyddogion o'r farn bod pob un o denantiaid Wrecsam yn haeddu cartref modern a diogel o safon dda ac amgylchedd lle gallant fyw a ffynnu.

Rydym yn cytuno bod angen mwy o dai cymdeithasol a chanolradd fforddiadwy yn Wrecsam, ac mae Llywodraeth Cymru wedi pennu targed ar draws Cymru gyfan i gyflawni'r dangosydd allweddol hwn. Mae Wrecsam yn parhau i ddatblygu ei strategaeth i sicrhau ein bod yn cyflawni ein targedau. Mae Strategaeth Tai Lleol 2018-23 yn cael ei datblygu yn awr ac mae hyn yn ystyried yr angen am dai cymdeithasol ychwanegol yn Wrecsam.

Mae'r Adran Tai yn ceisio moderneiddio ei gwasanaethau drwy sicrhau bod gan gwsmeriaid fynediad at wasanaethau ar-lein. Fel rhan o'r cynllun adrannol ar gyfer symud ymlaen, y bwriad yw datblygu gweithio symudol a gweithio ystwyth i'r staff mewn rhai meysydd allweddol, a darparu cyfleoedd ychwanegol i gwsmeriaid ymgysylltu a chyfathrebu a chael mynediad at wasanaethau drwy lwyfan digidol.

Bydd dyfeisiau symudol yn galluogi staff i weithio ar draws ardaloedd heb fod yn seiliedig mewn swyddfa ac mae'n flaenoriaeth allweddol i staff ystâd, oherwydd bydd hyn yn eu galluogi i ymgysylltu â'r cwsmer a chael mwy o bresenoldeb ar yr ystadau, yn ogystal â lleihau costau a gwneud defnydd mwy effeithiol o adnoddau.

Mae cyflogau cynghorwyr yn cael ei bennu gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau dull cyson cenedlaethol o dalu cydnabyddiaeth i aelodau.

Ni chaniateir i Gynghorau unigol bennu lwfansau y tu hwnt i'r graddfeydd a argymhellir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

POBL

Gofal Cymdeithasol Plant

Roeddem yn cynnig:

Lleoliadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal

Cynigir ein bod yn cynyddu'r ffioedd yr ydym yn eu talu i ofalwyr maeth sy'n cael eu cyflogi gan y Cyngor os ydynt yn darparu lleoliadau ar gyfer y plant hyn. Rhagwelir y bydd hyn yn lleihau'r swm yr ydym yn ei wario ar leoliadau maeth annibynnol. Bydd y cynnig hwn hefyd yn ychwanegu at gapasiti'r gwasanaeth drwy gynyddu'r nifer o ofalwyr maeth sydd ar gael i blant yn Wrecsam. **Amcangyfrifir y gallai hyn greu arbedion o tua £10,000 yn 2018/19 a £10,000 pellach yn 2019/20.**

Derbyniodd y cynnig hwn sgôr cyfartalog o **0.73**

Dywedoch Chi:

- Mae angen i blant fod yn ganolbwynt i unrhyw benderfyniadau a wneir ar y cynnig hwn
- Bod angen gwybodaeth bellach arnoch am y cynnig hwn er mwyn gallu gwneud penderfyniad arno
- Na ddylai arian fod yn gymhelliant i ofalwyr maeth er roedd pobl hefyd o'r farn bod angen i ofalwyr maeth dderbyn tâl a chefnogaeth ddigonol

Gwnaethom Ni:

Rydym wedi ailsefydlu rôl Swyddog Recriwtio i'n cynorthwyo i recriwtio mwy o ofalwyr maeth ar gyfer plant lleol.

Rydym yn parhau i dalu gofalwyr maeth yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru gyda ffi sgiliau er mwyn gwneud y wobr ariannol yn gystadleuol â'r sector annibynnol.

Mae ansawdd lleoliadau maethu yn cael eu monitro drwy'r fframwaith archwilio rheoleiddiol a'r Adolygiad Ansawdd Gofal Blynyddol.

Roeddem yn cynnig:

Grantiau Cynaliadwyedd gofal plant

Mae'r Grantiau Cynaliadwyedd Gofal Plant yn ddyraniadau ariannol bychan a roddir yn uniongyrchol i rai darparwyr gofal plant preifat a thrydydd parti i'w cynorthwyo i sicrhau bod eu busnesau yn gynaliadwy. Rydym yn cynnig rhoi'r gorau i ddarparu'r Grantiau Cynaliadwyedd Gofal Plant. **Amcangyfrifir y gallai hyn greu arbedion o tua £10,000 yn 2018/19 a £10,000 pellach yn 2019/20.**

This proposal received an average score of **0.26**

Dywedoch Chi:

- Ni ddylai busnesau dderbyn y grantiau hyn ac felly dylent ddod i ben, fodd bynnag, roedd pryder hefyd na fyddai rhai darparwyr gofal plant yn gallu goroesi heb y grantiau hyn
- Mae gofal plant yn hollbwysig er mwyn cefnogi cyflogaeth ac y gallai diddymu'r grantiau hyn gael effaith negyddol ar fywyd gwaith pobl
- Roedd llawer o'r ymatebwyr o'r farn bod angen gwybodaeth bellach arnynt ar y cynnig er mwyn gallu gwneud penderfyniad

Gwnaethom Ni:

Bydd cylch gwaith y Tîm Gofal Plant yn cael ei ddosbarthu i bob darparwr er mwyn pwysleisio'r cymorth y gall y tîm ei gynnig. Mae ymyrraeth gynnar ar gyfer cyngor, gwybodaeth a chefnogaeth ar gael er mwyn osgoi anawsterau ariannol a chynllunio ar gyfer sefydlogrwydd. Byddwn yn rhannu hyn wrth i ni weithredu'r cynnig hwn.

Roeddem yn cynnig:

Hyfforddiant gofal plant wedi'i ariannu gan y Cyngor

Mae'r Cyngor yn darparu cyllid ar hyn o bryd ar gyfer hyfforddi darparwyr gofal plant preifat a thrydydd parti. Mae'r hyfforddiant hwn yn cynnwys cymorth cyntaf pediatrig, hylendid bwyd a diogelu. Rydym yn cynnig rhoi'r gorau i ddarparu'r cyllid hwn a fydd yn golygu y bydd angen i'r gweithlu yn y sector preifat ariannu'r hyfforddiant hwn mewn ffordd amgen. **Amcangyfrif y gallai hyn greu arbedion o tua £10,000 yn 2018/19 a £10,000 pellach yn 2019/20.**

Derbyniodd y cynnig hwn sgôr cyfartalog o **0.42**

Dywedoch Chi:

- Dylai darparwyr dalu am eu hyfforddiant eu hunain ond roedd pryderon y gallai hyn gael effaith niweidiol ar safonau gofal plant
- Byddai angen system fonitro i sicrhau bod darparwyr gofal plant yn parhau i ymgymryd â'r hyfforddiant perthnasol
- Cyflwynwyd nifer o awgrymiadau amgen hefyd ar y cynnig hwn

Gwnaethom Ni:

Wrth i ni weithredu'r cynnig hwn, bydd y Cyfeiriadur Hyfforddiant yn cael ei ddiweddaru a'i ddosbarthu i bob darparwr i sicrhau bod hyfforddiant presennol ar draws y sector yn cael ei ddefnyddio

Gofynasom ni:

A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ynghylch unrhyw beth yr ydych wedi ei ddarllen yn yr adran 'Gofal Cymdeithasol Plant'?

Dywedoch Chi:

- Ni ddylid lleihau unrhyw gyllid ar gyfer plant a dylai diogelu plant barhau i fod yn flaenoriaeth
- Mae angen cymorth ar blant a hwy yw cymdeithas y dyfodol
- Dylai'r Cyngor fod yn ceisio lleihau costau a threuliau'r cynghorwyr yn hytrach na gwneud arbedion i gyllidebau, yn ogystal â lleihau costau staff drwy leihau cyflogau a'r nifer o reolwyr o fewn y Cyngor
- Cyflwynwyd nifer o awgrymiadau amgen hefyd ar y cynnig hwn

Gwnaethom Ni:

Yn Wrecsam mae pob swydd gwaith cymdeithasol wedi'u cwmpasu er mwyn sicrhau bod diogelu yn parhau i fod y flaenoriaeth uchaf.

Cynigir gwybodaeth, cyngor a chymorth i blant a theuluoedd i'w helpu i ffynnu fel dewis amgen i ymyrraeth statudol.

Byddwn yn parhau i fonitro'r cymorth a'r gwasanaethau sydd eu hangen ar deuluoedd yn ofalus, er mwyn gwneud yn siŵr eu bod yn gallu cael mynediad at wasanaethau sy'n eu helpu i helpu eu hunain.

Addysg

Roeddem yn cynnig:
Gwasanaeth cerddoriaeth

Mae'r Cyngor yn darparu gwasanaeth cerddoriaeth cynhwysfawr iawn yn awr i ysgolion, sy'n cynnwys hyfforddiant offerynnol peripatetig (h.y. tiwtoriaid yn ymweld ag ysgolion gwahanol), hwyluso cerddorfeydd a chorau ieuenctid i nifer o ddisgyblion ar draws y fwrdeistref. Nid yw'r gwasanaeth hwn yn un statudol ac felly cynigir bod y Cyngor yn tynnu'r cyllid yn ôl ar gyfer y gwasanaeth cerddoriaeth hwn. **Amcangyfrifir y gallai hyn greu arbedion o tua £300,000 yn 2019/20.**

Derbyniodd y cynnig hwn sgôr cyfartalog o **-0.54**

Dywedoch Chi:

- Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau cerddorol yn cyflwyno nifer o fuddion i blant ac felly roedd llawer o bobl yn anghytuno â'r cynnig hwn
- Dylai bod gan bob plentyn fynediad cyfartal at y cyfleoedd hyn ond roedd llawer o bobl hefyd yn credu nad oedd yn afresymol disgwyl i bobl dalu am eu gwersi cerddoriaeth
- Dylai'r Cyngor fod yn ceisio lleihau costau a threuliau'r cynghorwyr yn hytrach na gwneud arbedion i gyllidebau, yn ogystal â lleihau costau staff drwy leihau cyflogau a'r nifer o reolwyr o fewn y Cyngor

Gwnaethom Ni:

Yn dilyn y cyfnod ymgynghori a'r cynnig i dynnu £300,000 o'r gyllideb sy'n darparu gwasanaeth cerddoriaeth i ysgolion, roedd y pryderon a fynegwyd yn cynnwys y byddai effaith niweidiol anghymesur i grwpiau o ddysgwyr, yn benodol y rhai na allant fforddio i dalu am hyfforddiant cerddorol. Mae'r risg hon wedi'i lleddfu drwy sefydlu cyllideb o £50,000 y flwyddyn i ddarparu cronfa fwrsariaeth.

Mae cyflogau cynghorwyr yn cael ei bennu gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau dull cyson cenedlaethol o dalu cydnabyddiaeth i aelodau.

Mae strwythur uwch reolwyr Wrecsam ymhlith rhai o'r lleiaf yng Nghymru, yn dilyn ailstrwythuro diweddar i uwch reolwyr. Byddai ei leihau ymhellach yn cyflwyno risgiau llywodraethu sylweddol.

Roeddem yn cynnig:

Cyllideb ysgolion

Mae'r Cyngor wedi diogelu cyllidebau ysgolion ers nifer o flynyddoedd. Cynigir bod cyllidebau ysgolion yn cael eu diogelu a'u bod yn derbyn yr un dyraniad â 2017/18 ond na fyddai'n cynyddu dros y ddwy flynedd ganlynol. Mae hyn yn golygu y bydd angen i ysgolion ddelio â'r pwysau twf a chwyddiant. Amcangyfrifir y bydd hyn yn **£1,158,000 yn 2018/19 a £1,408,000 pellach yn 2019/20**. Ymgynghorwyd ar y cynnig hwn gyda'r Fforwm Cyllidebau Ysgolion.

Derbyniodd y cynnig hwn sgôr cyfartalog o **-0.31**

Dywedoch Chi:

- Mae ysgolion eisoes yn wynebu anawsterau ariannol ac felly roedd llawer o bobl yn anghytuno â'r cynnig hwn
- Mae addysg dda yn bwysig i unigolion ac i Wrecsam ac felly dylid blaenoriaethu addysg
- Bydd hyn yn cael effaith niweidiol ar addysg ac felly roedd llawer yn anghytuno â'r cynnig

Gwnaethom Ni:

Addysg yw un o brif flaenoriaethau'r Cyngor, a sicrhau bod plant a phobl ifanc Wrecsam yn cyflawni eu potensial a bod canlyniadau a llesiant dysgwyr yn dda ar draws y Fwrdeistref Sirol. Mae gan y Cyngor brofiad blaenorol da o ddiogelu cyllidebau ysgolion ac yn dilyn y broses ymgynghori mae wedi arddangos ei ymrwymiad parhaus i sicrhau bod cyllid yn cael ei ganfod ar gyfer cyflenwi ar y rheng flaen drwy gynyddu'r gyllideb ddirprwyedig ar gyfer ysgolion o 1.48% yn hytrach na darparu cyllideb ddigyfnewid i ysgolion.

Gofynasom ni:

A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ynghylch unrhyw beth yr ydych wedi ei ddarllen yn yr adran 'Addysg?

Dywedoch Chi:

- Cafwyd sylwadau ychwanegol am y gwasanaeth cerddoriaeth
- Mae'n rhaid blaenoriaethu addysg
- Mae angen i ni fuddsoddi mewn ysgolion er mwyn gwella addysg yn lleol
- Plant yw'r dyfodol ac felly mae angen i ni fuddsoddi ynddynt yn awr
- Cyflwynwyd syniadau amgen eraill hefyd ar arbedion/cynhyrchu incwm

Gwnaethom Ni:

Mae gan y cyngor brofiad blaenorol da o ddiogelu cyllidebau ysgolion, a welwyd gan y penderfyniad i gynyddu cyllidebau ysgolion o 1.48% yn 2018-19. O ran cerddoriaeth, bydd yr Adran Addysg yn gweithio'n agos gydag ysgolion i ystyried opsiynau ar gyfer darparu gwasanaeth cerddoriaeth ar draws y Fwrdeistref.

GOFAL CYMDEITHASOL I OEDOLION

Roeddem yn cynnig:

Cyfleoedd dydd a gwaith

Mae'r adolygiad hwn yn cael ei gynnal ac mae'n canolbwyntio i ddechrau ar dri phrosiect i ddarparu cyfleoedd gwaith i oedolion ag anableddau dysgu, anableddau corfforol, nam ar y synhwyrau ac anghenion iechyd meddwl (Profion Dyfeisiau Cludadwy, Caffi Dyfroedd Alun a golchdy Coverall). Bydd yr adolygiad hwn yn helpu i benderfynu a ddylai'r adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion fod yn parhau i redeg y prosiectau hyn, a oes angen y gwasanaethau hyn a nodi unrhyw ffyrdd eraill y gallwn gynorthwyo pobl i gael mynediad at gyfleoedd cyflogaeth a gwirfoddoli. Ochr yn ochr â'r gwaith hwn byddwn hefyd yn adolygu dau wasanaeth dydd arall, Prosiect Gardd Erlas a chanolfan ddydd Cunliffe, er mwyn sicrhau ein bod yn datblygu gwasanaethau cynaliadwy sy'n addas ar gyfer y dyfodol. Fel rhan o'r adolygiad hwn, byddwn hefyd yn edrych ar y posibilrwydd o adleoli staff sy'n gweithio ar ein safle Greenacres yn awr er mwyn lleihau costau adeiladau staff. **Amcangyfrifir y gallai hyn greu arbedion o tua £67,493 yn 2018/19 a £402,000 pellach yn 2019/20.**

Derbyniodd y cynnig hwn sgôr cyfartalog o **-0.06**

Dywedoch Chi:

- Mae'n rhaid i ni ddiogelu'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas ond ar yr un pryd, mae'n rhesymol sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu darparu yn gost effeithiol
- Mae'r prosiectau hyn yn bwysig a dylid eu cynorthwyo i barhau mewn rhyw ffordd oherwydd mae angen y gefnogaeth hon ar y bobl hynny sy'n defnyddio'r gwasanaethau hyn
- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod angen gwybodaeth bellach am y cynnig er mwyn gallu gwneud penderfyniad

Gwnaethom Ni:

Mae'r Adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion wedi bod yn gweithio ar yr adolygiad a'r opsiynau ar gyfer cyfleoedd Dydd a gwaith yn y dyfodol ers dwy flynedd yn awr, yn gwrando ar farn ac uchelgeisiau'r bobl yr ydym yn eu cynorthwyo, eu teuluoedd a'u gofalwyr a'n staff. Mae hyn, ynghyd â dealltwriaeth o'r galw arfaethedig yn y dyfodol ar gyfer y gwasanaethau a chyfleoedd a fydd ar gael wedi ein helpu i lunio'r opsiynau ar gyfer symud ymlaen. Mae'r adran wedi dechrau ar gyfnod o ymgynghori ffurfiol yn awr gyda'r bobl yr ydym yn eu cynorthwyo, eu teuluoedd, gofalwyr a'n staff er mwyn helpu i sicrhau ein bod yn symud ymlaen gyda'r opsiwn mwyaf priodol a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Bydd y gwaith hwn yn parhau i ddatblygu a bydd y bobl yr ydym yn eu cefnogi yn parhau i fod yn ganolbwynt i hyn.

Roeddem yn cynnig:

Adolygu Taliadau Uniongyrchol

Rydym eisiau sicrhau bod Taliadau Uniongyrchol ar gael i fwy o bobl. Mae Taliadau Uniongyrchol yn caniatáu i bobl, sy'n gymwys i dderbyn gofal a chymorth, allu rheoli eu cyllideb eu hunain yn annibynnol neu gyda chymorth. Mae hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i bobl ynglŷn â phryd a sut maent yn derbyn gofal a phwy sy'n ei ddarparu. Rydym yn chwilio am ffyrdd o allu ei gwneud yn haws i reoli Taliadau Uniongyrchol ac rydym yn adolygu'r gwasanaethau cymorth sydd ar waith gennym yn awr. **Amcangyfrifir y gallai hyn greu arbedion o tua £125,000 yn 2019/20.**

Derbyniodd y cynnig hwn sgôr cyfartalog o **0.71**

Dywedoch Chi:

- Efallai na fydd rhai defnyddwyr gwasanaeth yn gallu rheoli hyn eu hunain ac mae yna bosibilrwydd o bobl yn defnyddio'r arian hwn mewn ffordd amhriodol
- Dywedodd rhai o'r ymatebwyr bod angen gwybodaeth bellach arnynt am y cynnig er mwyn gallu gwneud penderfyniad
- Roedd llawer o bobl yn cytuno â'r cynnig hwn yn gyffredinol ond roeddent o'r farn y byddai angen sicrhau bod rhai mesurau cefnogaeth ar waith i gynorthwyo pobl

Gwnaethom Ni:

Mae gwella mynediad at Daliadau Uniongyrchol yn ffordd bwysig o alluogi pobl sydd angen gofal a chymorth i gael dewis a rheolaeth a byddwn yn datblygu'r cynnig hwn. Rydym yn gwbl ymrwymedig i sicrhau bod gennym y cymorth cywir ar gael i alluogi pobl i reoli eu Taliadau Uniongyrchol yn ddiogel.

Roeddem yn cynnig:

Adolygu Gwasanaethau Seibiant

Rydym yn awyddus i wella'r gwasanaethau sydd ar gael i ofalwyr, sy'n cynnwys gwasanaethau seibiant i ofalwyr. Cynlluniwyd y gwasanaethau hyn i roi seibiant i ofalwyr o'u rôl ofalu. Rydym yn cynnig rhoi'r gorau i ddefnyddio darparwyr gofal cartref ar gyfer darparu seibiant i ofalwyr a chomisiynu gwasanaeth newydd i ofalwyr sy'n cynnig gwasanaethau hyblyg am gost fwy cynaliadwy. Rydym hefyd wedi llwyddo i sicrhau grant i'n galluogi i adeiladu estyniad i'n cyfleuster seibiant arbenigol yn Park View ar gyfer oedolion ag anableddau dysgu ac anableddau corfforol. Bydd hyn yn ein galluogi i gynyddu'r lefel o wasanaethau seibiant arbenigol sydd ar gael a gallai helpu i gynhyrchu incwm oherwydd byddai'r gwasanaeth ar gael i'r Bwrdd Iechyd ac Awdurdodau Lleol eraill i'w brynu, a fyddai'n gwneud y gwasanaeth yn fwy cynaliadwy. **Amcangyfrifir y gallai hyn greu arbedion o tua £120,000 yn 2018/19.**

Derbyniodd y cynnig hwn sgôr cyfartalog o **0.67**

Dywedoch Chi:

- Roedd angen gwybodaeth bellach arnoch am y cynnig er mwyn gallu gwneud penderfyniad
- Rydych yn credu bod gofalwyr yn darparu gwasanaeth gwerthfawr ac y dylid eu cefnogi ac na ddylai hyn gael effaith negyddol ar ofalwyr neu leihad mewn gwasanaethau
- Rydych yn cytuno â'r cynnig ond roedd llawer hefyd yn credu y gallai hyn arwain at broblemau mewn meysydd eraill neu yn y dyfodol

Gwnaethom Ni:

Rydym yn ymrwymedig i gefnogi Gofalwyr ac rydym yn gweithio gyda gofalwyr yn awr i ddatblygu ein 'strategaeth ar gyfer gofalwyr' a gwasanaethau wrth symud ymlaen. Eleni byddwn yn comisiynu gwasanaeth gwybodaeth, cyngor a seibiant newydd di ofalwyr yn seiliedig ar yr hyn y bydd gofalwyr yn dweud wrthym sydd ei angen arnynt.

Roeddem yn cynnig:

Adolygu gwasanaethau Gofal a Chymorth

Byddwn yn adolygu pawb sy'n derbyn gwasanaethau gofal a chymorth er mwyn nodi unrhyw ddulliau amgen i gynorthwyo pobl i gyflawni eu hanghenion ac i sicrhau nad oes unrhyw orddarpariaeth gwasanaethau. Fel rhan o hyn rydym yn cynnig adolygu'r ddarpariaeth a chyflenwi Cymorth Gwaith Prosiect. Cynigir y byddwn yn adolygu'r defnydd a'r cymhwyster ar gyfer Cymorth Gwaith Prosiect ac i nodi modelau cyflenwi amgen cost is megis Taliadau Uniongyrchol a Cysylltu Bywydau. **Amcangyfrifir y gallai hyn greu arbedion o tua £125,000 yn 2018/19 £225,000 pellach yn 2019/20.**

Derbyniodd y cynnig hwn sgôr cyfartalog o **0.42**

Dywedoch Chi:

- Roedd angen gwybodaeth bellach arnoch am y cynnig er mwyn gallu gwneud penderfyniad
- Roedd llawer yn cytuno â'r cynnig yn gyffredinol ond fe awgrymodd pobl hefyd bod angen i ni ddiogelu a darparu ar gyfer y bobl fwyaf agored i niwed a pheidio cymryd gwasanaethau oddi ar bobl sydd eu hangen
- Mae angen gwella'r ddarpariaeth gofal a chefnogaeth bresennol

Gwnaethom Ni:

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i sicrhau ein bod yn cyflawni anghenion pobl sy'n agored i niwed. Rydym yn gweithio gyda phobl ar sail unigol i adolygu'r gefnogaeth maent yn ei derbyn er mwyn sicrhau ei bod yn cyflawni'r canlyniadau a ddymunir, nodi unrhyw ffyrdd amgen o gefnogi pobl a sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael. Nid yw hyn yn golygu gadael pobl heb y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt.

Roeddem yn cynnig:
Byw â Chymorth

Rydym yn cynnig adolygu Byw â Chymorth er mwyn sicrhau bod y model yn fforddiadwy a chynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Mae Byw â Chymorth yn cynnig cymorth a llety sydd â lefelau uchel o angen. Mae gan y rhan fwyaf o dai Byw â Chymorth aelod o staff sy'n cysgu i mewn dros nos. Rydym yn cynnig adolygu hyn oherwydd gwyddom nad oes angen y lefel hon o bresenoldeb staff ym mhob tŷ. Mae Gofal Cymdeithasol i Oedolion hefyd yn ariannu unrhyw unedau gwag yn y tai Byw â Chymorth. Rydym yn cynnig adolygu hyn a gwella ein dulliau o reoli unedau gwag. Rydym hefyd yn cynnig adolygu'r lefel o angen sy'n cael ei chefnogi yn y ddarpariaeth Byw â Chymorth a nodi gwasanaethau amgen mwy addas i bobl nad yw eu hanghenion yn uwch na'r lefel honno. **Amcangyfrifir y gallai hyn greu arbedion o tua £197,622 yn 2018/19 a £250,000 pellach yn 2019/20.**

Derbyniodd y cynnig hwn sgôr cyfartalog o **0.39**

Dywedoch Chi:

- Dylai'r Cyngor ddiogelu a darparu ar gyfer y bobl fwyaf agored i niwed a sicrhau bod y gwasanaethau hyn yn cyflawni anghenion pobl
- Roedd rhai o'r ymatebwyr o'r farn bod angen gwybodaeth bellach arnynt am y cynnig er mwyn gallu gwneud penderfyniad
- Roedd rhai pobl yn anghytuno â'r cynnig hwn ac y gallai fod yn niweidiol i wasanaethau a defnyddwyr gwasanaeth

Gwnaethom Ni:

Rydym yn parhau i fod yn ymrwymedig i gyflawni anghenion pobl yn y ffordd fwyaf priodol iddynt hwy. Mae'n bwysig gwybod nad ydym yn defnyddio "dull hollgynhwysfawr". Rydym yn gweithio gyda phobl ar sail unigol er mwyn sicrhau eu bod yn derbyn y lefelau cywir o gymorth, eu bod yn cael cyfle i fyw mor annibynnol â phosibl a chael mynediad at amrediad o teleofal, offer byw o ddydd i ddydd ac addasiadau i gefnogi eu hannibyniaeth a'u diogelwch.

Roeddem yn cynnig:

Lleoliadau y tu allan i'r sir

Cynigir y byddwn yn parhau gyda'r gwaith sy'n cael ei wneud yn awr i gynorthwyo pobl i ddychwelyd i Wrecsam ar ôl cael eu lleoli mewn cartrefi gofal neu wasanaethau Byw â Chymorth y tu allan i'r Sir a sicrhau ein bod yn gwneud defnydd llawn o'r ddarpariaeth Byw â Chymorth fel dewis amgen i leoliadau, lle y bo hynny'n briodol. Fel rhan o'r gwaith hwn byddwn yn adolygu'r defnydd ac ehangiad posibl y Gwasanaeth Adfer (ein gwasanaeth iechyd meddwl arbenigol) yn gweithio mewn partneriaeth â'r Bwrdd Iechyd. **Amcangyfrifir y gallai hyn greu arbedion o tua £75,000 yn 2018/19 a £75,000 pellach yn 2019/20.**

Derbyniodd y cynnig hwn sgôr cyfartalog o **0.71**

Dywedoch Chi:

- Dylai pobl gael eu cefnogi yn yr ardal leol oherwydd mae hynny'n well iddynt
- Mae angen gwybodaeth bellach arnoch am y cynnig er mwyn gallu gwneud penderfyniad
- Mae'n rhaid i'r Cyngor sicrhau bod yr arbenigedd a'r capasiti cywir ar gael yn Wrecsam ac nad yw'r cynnig hwn yn cael effaith niweidiol ar safonau

Gwnaethom Ni:

Rydym yn ymrwymedig i gefnogi dinasyddion Wrecsam i barhau i fyw yn Wrecsam ac rydym yn gweithio'n galed i ddatblygu gwasanaethau er mwyn sicrhau bod hyn yn bosibl.

Gofynasom ni:

A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ynghylch unrhyw beth yr ydych wedi ei ddarllen yn yr adran 'Gofal Cymdeithasol i Oedolion?

Dywedoch Chi:

- Y gellir gwneud arbedion i'r gyllideb mewn meysydd eraill yn hytrach na thoriadau i wasanaethau i bobl agored i niwed
- Dylai'r Cyngor fod yn ceisio lleihau costau a threuliau'r cynghorwyr yn hytrach na gwneud arbedion i gyllidebau, yn ogystal â lleihau costau staff drwy leihau cyflogau a'r nifer o reolwyr o fewn y Cyngor
- Mae'n rhaid i ddarpariaeth Gofal Cymdeithasol i Oedolion o safon dda fod yn flaenoriaeth ac mae angen mwy o gyllid, nid llai
- Dylai'r Adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion fod yn canolbwyntio ar ddarparu gofal, nid arbed arian

Gwnaethom Ni:

Mae'r Cyngor yn parhau i fod yn ymrwymedig i ddiogelu'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymuned a sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'r adnoddau sydd ar gael mewn cyfnod o bwysau cynyddol ar ofal cymdeithasol. Mae'r Adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion yn parhau i ail-lunio a moderneiddio er mwyn gwneud y newid i ganolbwyntio adnoddau ar ddarparu gwybodaeth a chyngor amserol o ansawdd da a buddsoddi mewn gwasanaethau er mwyn cynorthwyo pobl i barhau i fyw mor annibynnol â phosibl, gan sicrhau bod adnoddau yn parhau i fod ar gael i gefnogi pobl ag anghenion cymhleth. Rydym eisoes wedi lleihau'r nifer o reolwyr gwasanaeth a rheolwyr tîm o fewn yr adran Gofal Cymdeithasol i Oedolion ac wedi ail-lunio i sicrhau ein bod yn gweithio mor effeithiol â phosibl. Rydym hefyd yn gweithio'n galed i foderneiddio gwasanaethau a datblygu dulliau creadigol newydd er mwyn gallu rhoi cefnogaeth well i bobl gyflawni eu canlyniadau er mwyn i ni allu diogelu mynediad at gymorth a gwasanaethau er gwaethaf gostyngiadau i gyllid.

Mae cyflogau cynghorwyr yn cael ei bennu gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau dull cyson cenedlaethol o dalu cydnabyddiaeth i aelodau. Ni chaniateir i Gynghorau bennu lwfansau y tu hwnt i'r graddau a argymhellir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Mae strwythur uwch reolwyr Wrecsam ymhlith rhai o'r lleiaf yng Nghymru, yn dilyn ailstrwythuro diweddar i uwch reolwyr. Byddai ei leihau ymhellach yn cyflwyno risgiau llywodraethu sylweddol.

LLE

Yr Amgylchedd a Chynllunio

Roeddem yn cynnig:

Codi tâl am gasgliadau gwastraff gwyrdd

Bydd y Cyngor yn darparu biniau gwastraff gwyrdd er mwyn i bobl waredu deunyddiau gardd. Ar hyn o bryd mae'n bosibl prynu biniau gwyrdd ychwanegol ac maent yn cael eu gwagio am ddim. Cynigir y byddwn yn cyflwyno tâl am gasglu unrhyw finiau gwastraff gwyrdd ychwanegol. Bydd un bin yn parhau i gael ei gasglu am ddim, ond codir tâl ychwanegol £30 y flwyddyn am bob bin ychwanegol. **Amcangyfrifir y gallai hyn greu incwm ychwanegol o tua £15,000 yn 2018/19.**

Derbyniodd y cynnig hwn sgôr cyfartalog o **0.66**

Dywedoch Chi:

- Y dylid codi tâl am finiau gwastraff gwyrdd ychwanegol
- Gallai codi tâl greu tipio anghyfreithlon a fydd yn arwain at gostau ychwanegol i'w lanhau
- Dylem fod yn annog pobl i ailgylchu/ compostio a bydd codi tâl am fin ychwanegol yn cael effaith negyddol ar hyn
- Mae'r cyfraddau'r Dreth Gyngor eisoes yn rhy uchel am y gwasanaethau a dderbynnir a dylai'r swm a delir gwmpasu cost y biniau
- Cafwyd rhywfaint o anghytuno cyffredinol ar y cynnig hwn

Gwnaethom Ni:

Roedd y rhan fwyaf o'r ymatebion gan y cyhoedd yn cefnogi'r newid hwn a chaiff ei weithredu o fis Ebrill 2018. Er mwyn lliniaru unrhyw effaith niweidiol bosibl, bydd y Cyngor yn parhau i annog y cyhoedd i ddod â deunyddiau y gellir eu hailgylchu/ compostio i'n Canolfannau Ailgylchu Gwastraff Cartref a rhoi blaenoriaeth i fonitro a gorfodi tipio anghyfreithlon.

Roeddem yn cynnig:

Adolygu trefniadau parcio bathodyn glas

Ar hyn o bryd gall deiliaid bathodynnau glas barcio am ddim ym Meysydd Parcio y Cyngor. Nid yw'r cynllun bathodynnau glas yn destun prawf modd ariannol; felly nid oes angen tybio na all y bobl hynny sydd â bathodynnau glas dalu i barcio. Cynigir y byddwn yn cyflwyno tâl ym meysydd parcio'r Cyngor i'r bobl hynny sy'n meddu ar fathodynnau glas. **Amcangyfrifir y gallai hyn greu incwm ychwanegol o tua £25,000 yn 2018/19.**

Derbyniodd y cynnig hwn sgôr cyfartalog o **0.65**

Dywedoch Chi:

- Mae bathodyn glas yn ymwneud ag anabledd nid incwm
- Mae angen mynd i'r afael â'r camddefnydd o fathodynnau glas a dylid dirwyo pobl sy'n parcio mewn lle anabl heb fathodyn glas
- Mae'n rhaid i ni sicrhau bod lleoedd parcio ar gyfer pobl anabl yn addas, lleoli peiriannau talu yn agos ar y lleoedd parcio anabl a chynnig cyfleusterau cerdyn neu docynnau tymor
- Mae'n rhaid i ni sicrhau bod lleoedd parcio ar gyfer pobl anabl yn addas, lleoli peiriannau talu yn agos ar y lleoedd parcio anabl a chynnig cyfleusterau cerdyn neu docynnau tymor
- Cafwyd rhywfaint o anghytuno cyffredinol ar y cynnig hwn

Gwnaethom Ni:

Roedd y mwyafrif o'r ymatebion gan y cyhoedd yn cefnogi'r newid hwn a bydd yn cael ei weithredu yn dilyn ymgynghoriad statudol.

Bydd y Cyngor yn monitro lleoliad a darpariaeth lleoedd bathodynnau glas a pheiriannau talu yn weithredol er mwyn sicrhau eu bod yn cael eu cadw ar gyfer deiliaid bathodynnau glas a'u bod yn y lleoliadau mwyaf hygyrch a chyfleus.

Roeddem yn cynnig:

Cyflwyno taliadau meysydd parcio mewn parciau gwledig a lleoliadau amrywiol

Mae Cyngor Wrecsam yn rheoli nifer o barciau gwledig ar draws y fwrdeistref sirol. Rydym yn cynnig cyflwyno tâl i ymwelwyr mewn meysydd parcio yn Nyfroedd Alun, Tŷ Mawr, Melin y Nant a Basn Trefor o £1 am ddiwrnod llawn. **Amcangyfrifir y gallai hyn greu incwm ychwanegol o tua £47,000 yn 2018/19.**

Derbyniodd y cynnig hwn sgôr cyfartalog o **0.26**

Dywedoch Chi:

- Bydd hyn yn arwain at bobl yn parcio eu ceir o flaen tai o amgylch y parciau gwledig a dylem ystyried sut i liniaru hynny
- Gallai cyflwyno tâl wneud i bobl ailfeddwl cyn ymweld â pharciau a gallai hyn leihau incwm
- Gallai cyflwyno tâl rwystro pobl rhag cael ymarfer corff a gallai arwain at broblemau iechyd a llesiant yn yr hirdymor
- Cafwyd rhywfaint o gytundeb cyffredinol gyda'r cynnig hwn, gyda phobl yn datgan ei fod yn swm bach a rhesymol i'w dalu

Gwnaethom Ni:

Roedd y rhan fwyaf o ymatebion yn codi pryder ynglŷn â pharcio posibl ar y stryd, lleihad yn y defnydd o barciau gwledig ac effaith ganlyniadol ar iechyd a llesiant. Mae'r Cyngor o'r farn y bydd y newid hwn ond yn cael effaith fach ar y defnydd o barciau gwledig a gellir lliniaru unrhyw barcio ar y stryd drwy Orchmynion Traffig a rheolaethau ar y stryd. Cyflwynir y newid hwn yn 2018/19.

Roeddem yn cynnig:

Codi tâl i staff ac aelodau'r Cyngor mewn meysydd parcio

Mae'r Cyngor yn darparu parcio am ddim i rai o'i staff ac i Aelodau Etholedig yn ei feysydd parcio yng nghanol y dref. Cynigir y byddwn yn dileu'r hawl hwn er mwyn annog dulliau teithio i'r gwaith sy'n fwy cynaliadwy (e.e. trafnidiaeth gyhoeddus) ac i greu incwm ychwanegol. **Amcangyfrifir y gallai hyn greu incwm ychwanegol o tua £49,000 yn 2018/19.**

Derbyniodd y cynnig hwn sgôr cyfartalog o **1.19**

Dywedoch Chi:

- Dylai staff ac aelodau dalu i barcio oherwydd mae'n rhaid i'r cyhoedd dalu
- Roeddech yn anghytuno â'r cynnig am eich bod o'r farn y dylai staff allu parcio am ddim yn eu gweithle
- Byddai codi tâl ar bawb yn sicrhau cysondeb i bob aelod o staff neu dylai pob aelod o staff allu parcio am ddim
- Cafwyd rhywfaint o gytuno cyffredinol â'r cynnig gyda phobl yn datgan y dylid cyflwyno tâl bach neu gyfradd ratach

Gwnaethom Ni:

Cafwyd cefnogaeth aruthrol i'r cynnig hwn a byddwn yn ei gyflwyno yn 2018/19. Bydd y drefn o godi tâl a gyflwynir yn deg i Gynghorwyr etholedig a staff y Cyngor.

Roeddem yn cynnig:

Roeddem yn cynnig

Mae'r Cyngor yn rheoli 11 o Barciau Gwledig a Threfol. Rydym yn cynnig lleihau nifer y ceidwaid parciau sy'n gweithio yn y parciau ac ail-alinio'r gwasanaeth i ganolbwyntio ar ddulliau diogel o reoli safleoedd parciau allweddol (Parciau Gwledig Dyfroedd Alun a Thŷ Mawr) a chynnal adolygiad pellach o'n cyfleusterau tymhorol y parciau. Bydd Gwasanaeth Strydlun y Cyngor yn cynorthwyo'r ceidwaid i lanhau'r parciau. Mae'r cyfleusterau a'r staff sy'n cael eu cefnogi gan grantiau yn parhau i gael eu cynnal yn unol â meini prawf y grantiau. Bydd gostyngiad yn nifer y staff yn golygu y bydd rhai gwasanaethau, gan gynnwys digwyddiadau a gwaith ysgol yn lleihau a bydd model gwasanaeth newydd yn cael ei ddatblygu. **Amcangyfrifir y gallai hyn greu arbedion o tua £100,000 yn 2018/19**

Derbyniodd y cynnig hwn sgôr cyfartalog o **-0.54**

Dywedoch Chi:

- Roeddech o'r farn y gallai'r parciau fynd yn flêr neu ddirywio
- Dylid hybu parciau a mannau gwyrdd ar gyfer iechyd, agweddau cymdeithasol a llesiant cyffredinol pobl
- Mae Ceidwaid Parciau yn gwneud swydd dda ac felly ni ddylid lleihau eu nifer
- Bydd y cynnig hwn yn cael effaith negyddol ar Blant a Phobl Ifanc
- Mae ein parciau yn ased ac yn lleoedd i ni ymfalchïo ynddynt
- Mae ysgolion yn gwneud llawer o ddefnydd o'r cyfleusterau a gallai'r cynnig hwn effeithio ar y defnydd a wneir gan ysgolion

We Did:

Roedd y rhan fwyaf o ymatebion y cyhoedd yn codi pryderon ynglŷn ag effaith bosibl y newid hwn ar y gwasanaeth parciau gwledig. Mae'r Cyngor yn adolygu'r model cyflenwi er mwyn blaenoriaethu amgylcheddau diogel a lleihau, i'r graddau y bo'n ymarferol, unrhyw effaith ar ddigwyddiadau, gwaith hyrwyddo a defnydd cyffredinol y cyhoedd. Cyflwynir y newid hwn yn 2018/19.

Roeddem yn cynnig:

Cynyddu'r ffioedd blynyddol ar gyfer pasiau bws rhatach

Mae'r Cyngor yn darparu pasiau bws rhatach i fyfyrwyr nad ydynt yn gymwys fel rhan o'r gwasanaethau trafnidiaeth ysgol pan fydd capasiti seddau ar gael. Rydym yn cynnig cynyddu'r tâl presennol o £50 y tymor i £100 y tymor. **Amcangyfrifir y gallai hyn greu incwm ychwanegol o tua £6,000 yn 2018/19.**

Derbyniodd y cynnig hwn sgôr cyfartalog o **-0.17**

Dywedoch Chi:

- Mae cynnydd o 100% i'r gost yn ormodol
- Byddai hyn yn rhoi pwysau ar fyfyrwyr, teuluoedd ag incwm cyfyngedig neu deuluoedd sy'n ddifreintiedig yn ariannol
- Rydych yn cytuno i gynnydd ond swm llai
- Cafwyd rhywfaint o gytundeb cyffredinol hefyd ar y cynnig hwn

Gwnaethom Ni:

Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebion a gafwyd gan y cyhoedd yn cefnogi'r cynnig hwn. Ni fydd hyn yn effeithio ar unrhyw drafnidiaeth statudol o'r cartref i'r ysgol ar gyfer plant cymwys (y rhai sy'n byw mwy na 2/3 milltir o'u hysgol agosaf). Byddwn ond yn darparu pasiau rhatach ar gyfer disgyblion nad ydynt yn gymwys pan fydd capasiti ychwanegol. Cyflwynir y newid hwn o fis Ebrill 2018.

Roeddem yn cynnig:

Cynyddu taliadau amlosgfa

Mae'r Cyngor yn rheoli cyfleuster Amlosgfa Pentre Bychan. Mae cost amlosgiadau wedi cynyddu i gwmpasu chwyddiant yn unig dros y blynyddoedd diwethaf ac mae'r Cyngor wedi parhau i fuddsoddi a gwella'r cyfleusterau. Rydym yn cynnig cynyddu'r ffioedd amlosgi o 1af Ebrill 2018 o £50 ar gyfer amlosgiadau unigol a £100 ar gyfer amlosgiadau ar y cyd/dwbl. **Amcangyfrifir y gallai hyn greu incwm ychwanegol o £100,000 yn 2018/19.**

Derbyniodd y cynnig hwn sgôr cyfartalog o **0.27**

Dywedoch Chi:

- Mae costau angladdau eisoes yn ddrud ac felly ni ddylem fod yn eu gwneud yn ddrutach
- Mae'n annheg gwneud hyn i bobl sy'n galaru
- Ni ddarparwyd digon o wybodaeth i allu gwneud penderfyniad
- Dylem gynyddu'r taliadau ymhellach a chodi mwy na'r swm a gynigir
- Cafwyd rhywfaint o gytuno cyffredinol hefyd ar y cynnig hwn

Gwnaethom Ni:

Cafwyd ymateb cymysg gan y cyhoedd, gan gynnwys cytundeb, cais am wybodaeth bellach a phryder ynglŷn â'r effaith bosibl ar deuluoedd sy'n galaru. Mae'r amlosgfa yn darparu gwasanaeth o'r radd flaenaf, mae'r Cyngor yn buddsoddi yn y cyfleusterau ac mae'r taliadau arfaethedig yn gymesur â rhai darparwyr gwasanaeth eraill. Cyflwynir y newid hwn o fis Ebrill 2018.

Roeddem yn cynnig:
Cynyddu ffioedd rhandiroedd

Mae'r Cyngor yn darparu rhandiroedd yn Lôn Price, Erddig, Tan-y-fron a Ffordd Buddug. Mae yna 455 o safleoedd rhandir. Rydym yn cynnig cynyddu ffioedd rhandir i bob tenant o 25% o 1af Ebrill 2018. Byddai hyn yn golygu mai pris chwarter safle fyddai £39, hanner safle £72, a safle llawn £122. **Amcangyfrifir y byddai hyn yn creu incwm ychwanegol o tua £4,000 yn 2018/19.**

Derbyniodd y cynnig hwn sgôr cyfartalog o **0.44**

Dywedoch Chi:

- Bydd buddiannau rhandiroedd i iechyd a llesiant yn cael eu colli os bydd yn rhaid i bobl roi'r gorau iddynt
- Nid yw'r incwm ychwanegol a dderbynnir yn werth gwneud hyn
- Dylid annog y defnydd o randiroedd oherwydd mae'n annog tyfu bwyd iach
- Mae cynnydd o 25% i'r gost yn rhy uchel
- Cafwyd rhywfaint o gytundeb hefyd ar y cynnig hwn

Gwnaethom Ni:

Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebion gan y cyhoedd yn cefnogi'r newid hwn. Fodd bynnag, mae'r cynnydd arfaethedig i'r ffioedd ond yn ad-dalu'r costau i'r Cyngor o weinyddu a gwasanaethu'r rhandiroedd. Cyflwynir y newid hwn o fis Ebrill 2018.



Roeddem yn cynnig:

Adolygu'r trefniadau casglu ac ailgylchu gwastraff

Mae'r Cyngor wedi bod yn adolygu ei Wasanaeth Casglu Gwastraff ac Ailgylchu ers dwy flynedd wrth i ni geisio cynyddu ein cyfraddau ailgylchu i gyflawni targedau Llywodraeth Cymru a gwella effeithlonrwydd y gwasanaeth. Rydym wedi buddsoddi mewn cerbydau ailgylchu newydd, wedi gwella'r casgliadau o ddeunydd ailgylchadwy ychwanegol a gesglir ar garreg y drws ac wedi cyflwyno casgliadau gwastraff bwyd wythnosol a chynwysyddion casglu newydd ar garreg y drws (trolïau). Nod y Cyngor yn y tymor canolig yw adolygu amlder y casgliadau o wastraff gweddilliol (bin du). Y cynnig yw adolygu'r gwasanaethau gwastraff, gyda'r bwriad o wella cyfraddau ailgylchu a chyflawni arbedion i'r gwasanaeth.

Derbyniodd y cynnig hwn sgôr cyfartalog o **-0.20**

Dywedoch Chi:

- Dylem gadw'r casgliadau bin du pob pythefnos oherwydd mae'r biniau du eisoes yn llawn ar ôl pythefnos
- Dylem gadw'r casgliadau bin du pob pythefnos oherwydd mae'r biniau du eisoes yn llawn ar ôl pythefnos
- Mae angen gwybodaeth bellach er mwyn gallu rhoi ymateb llawn – dylid ymgynghori ar hyn ymhellach pan fydd y cynigion yn hysbys
- Pe byddai nifer y casgliadau yn lleihau yna byddai'r nifer o bryfed, llygod mawr, arogleuon drwg a risgiau eraill i iechyd yn cynyddu

Gwnaethom Ni:

Nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebion gan y cyhoedd yn cefnogi'r newid hwn. Ni chaiff y cynnig hwn ei gyflwyno ar y cam hwn, ond byddwn yn ystyried yr adborth hwn fel rhan o'r adolygiad cyffredinol o'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu cyffredinol pan fyddwn yn datblygu ein strategaeth ar gyfer y dyfodol yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Dim ond ar ôl hyn y bydd Cynghorwyr yn gwneud penderfyniad i weithredu hyn neu unrhyw newid mawr arall.

Gofynasom ni:

A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ynghylch unrhyw beth yr ydych wedi ei ddarllen yn yr adran 'Yr Amgylchedd a Chynllunio?

Dywedoch Chi:

- Ni ddylid gwneud unrhyw doriadau i'r gwasanaeth parciau
- Cafwyd awgrymiadau ar gyfer casgliadau gwastraff cartref
- Mae angen gwella ffyrdd a phriffyrdd Wrecsam
- Dylid gwella adran a gwasanaethau cynllunio Cyngor Wrecsam
- Mae diogelu'r amgylchedd yn bwysig yn awr ac ar gyfer y dyfodol, ac ni ddylid gwneud unrhyw doriadau yn y maes hwn

Gwnaethom Ni:

Mae'r Cyngor yn adolygu'r model cyflenwi yn ei barciau gwledig er mwyn blaenoriaethu amgylcheddau diogel ac i leihau, i'r graddau y mae'n ymarferol, unrhyw effaith ar ddigwyddiadau, gwaith hyrwyddo a defnydd cyffredinol y cyhoedd.

Bydd yr adborth a dderbyniwyd ar y gwelliannau arfaethedig i'r casgliadau gwastraff cartref yn cael ei ystyried fel rhan o'r adolygiad cyffredinol o'r gwasanaeth gwastraff ac ailgylchu pan fyddwn yn datblygu ein strategaeth ar gyfer y dyfodol yn ddiweddarach yn y flwyddyn.

Oherwydd mai adnoddau cyfyngedig a gostyngol sydd gan y Cyngor, ni all wella pob ffordd/priffordd yn y Fwrdeistref Sirol. Yn hytrach, mae'n rhaid i ni flaenoriaethu'r prif ffyrdd a ddefnyddir fwyaf er budd diogelwch priffyrdd a cherddwyr.

Yn y blynyddoedd diwethaf mae toriadau ariannol wedi golygu bod y Gwasanaeth Cynllunio wedi'i leihau i'r isafswm statudol. Fodd bynnag, mae'r gwasanaeth yn gwella mynediad y cyhoedd at wybodaeth ar geisiadau Cynllunio drwy wefan y Cyngor.

Mae'r Cyngor wedi gorfod wynebu rhai penderfyniadau anodd iawn ar sut i flaenoriaethu ei adnoddau cyfyngedig, ond mae'n derbyn ei gyfrifoldebau yn llawn o dan Ddeddf yr Amgylchedd.

TREFNIADAETH

Gwasanaethau Corfforaethol a Gwasanaethau Cwsmeriaid

Gofynasom ni:

A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ynghylch unrhyw beth yr ydych wedi ei ddarllen yn yr adran 'Yr Amgylchedd a Chynllunio?

Dywedoch Chi:

- Peidio cyflenwi ipads newydd i gynghorwyr neu ofyn i gynghorwyr brynu eu ipads eu hunain
- Rhannu mwy o wasanaethau gyda Chynghorau neu Sefydliadau eraill
- Peidio allanoli gwasanaethau
- Adolygu'r nifer o adeiladau'r Cyngor, cyfuno lleoliadau pan fydd yn bosibl a gwerthu unrhyw adeiladau nad ydynt yn cael eu defnyddio
- Cafwyd rhywfaint o gytundeb cyffredinol hefyd ar y cynigion hyn

Gwnaethom Ni:

IPads yw'r cyfrwng mwyaf cost effeithiol i Aelodau gael mynediad at eu deunyddiau busnes. Cyflawnwyd arbedion sylweddol o ran y gost o argraffu agendâu er enghraifft.

Byddai gofyn i Gynghorwyr brynu eu Ipads eu hunain yn mynd yn groes i argymhellion Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i asesu dull cyson ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol Aelodau.

Mae cyfleoedd i rannu capasiti gwasanaeth gyda sefydliadau eraill yn cael eu hystyried yn rhagweithiol. Mae gan y Cyngor bolisi economi gymysg er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu darparu gan y darparwr mwyaf deniadol yn economaidd.

Yn 2012 roedd CBSW yn defnyddio pedwar ar bymtheg o adeiladau ar gyfer swyddfeydd, ac yn 2017 rydym yn defnyddio 11. Rydym hefyd wedi lleihau'r gost gyfartalog fesul troedfedd sgwâr ar gyfer yr adeiladau hyn o tua 44%. Mae cynlluniau i gyfuno'r adeiladau yr ydym yn eu defnyddio ymhellach drwy weithio ystwyth parhaus a defnydd mwy effeithlon o ofod.

CYLLID

Roeddem yn cynnig:

Swyddogion cymorth cymunedol

Mae'r Cyngor yn darparu cyngor i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru i ariannu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSO). Daw'r cytundeb ariannu hwn i ben ym mis Mawrth 2019 ac rydym yn cynnig dod â hyn ymlaen i fis Hydref 2018. Felly, nid yw'n bosibl nodi'r cyllid hwn o unrhyw faes arall, gallai hyn arwain at ostyngiad yn nifer y PCSO o fewn y Fwrdeistref Sirol. **Amcangyfrifir y gallai hyn greu arbedion o tua £140,000 yn 2018/19 a £140,000 pellach yn 2019/20.**

Derbyniodd y cynnig hwn sgôr cyfartalog o **-0.56**

Dywedoch Chi:

- Mae angen PCSO
- Gyda'r nifer o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn Wrecsam, nid ddylid lleihau nifer y PCSO
- Gallai lleihau nifer y PSCO arwain at fwy o droseddau ac ymddygiad gwrthgymdeithasol
- Mae angen mwy o PCSO a Swyddogion yr Heddlu
- Nid yw PCSO yn effeithiol

Gwnaethom Ni:

Ailystyriwyd y cynnig i ddiddymu'r contract gyda Heddlu Gogledd Cymru yn dilyn y sylwadau a dderbyniwyd. Cytunwyd ar ostyngiad llai difrifol sy'n golygu y bydd hanner cyfraniad y Cyngor yn parhau. Bydd y trefniadau gwasanaeth yn cael eu dylanwadu gan gyngor proffesiynol gwasanaeth yr Heddlu.

Gofynasom ni:

A oes unrhyw sylwadau eraill yr hoffech eu gwneud ynghylch unrhyw beth yr ydych wedi ei ddarllen yn yr adran 'Cyllid'?

Dywedoch Chi:

- Dylem fod yn lleihau costau a threuliau cynghorwyr yn hytrach na gwneud arbedion i'r gyllideb, yn ogystal â lleihau costau staff drwy leihau cyflogau a'r nifer o reolwyr o fewn y Cyngor
- Ni ddylech leihau'r nifer o PCSO
- Ni ddylid allanoli na defnyddio ymgynghorwyr
- Cafwyd sylwadau hefyd ar effeithlonrwydd cyffredinol y cyngor

Gwnaethom Ni:

Mae cyflogau cynghorwyr yn cael ei bennu gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau dull cyson cenedlaethol o dalu cydnabyddiaeth i aelodau. Ni chaniateir i Gynghorau bennu lwfansau y tu hwnt i'r graddau a argymhellir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Mae strwythur uwch reolwyr Wrecsam ymhlith rhai o'r lleiaf yng Nghymru, yn dilyn ailstrwythuro diweddar i uwch reolwyr. Byddai ei leihau ymhellach yn cyflwyno risgiau llywodraethu sylweddol.

Roedd gwrthwynebiad cryf i leihau staff yn y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ac o ganlyniad, cafodd hyn ei ailystyried, ac er y bydd yr arbedion i'r gwasanaeth Archwilio yn parhau, byddant yn cael eu cyflawni yn awr heb leihau nifer y staff.

THEMÂU CYNLLUNIAU'R CYNGOR

Fe wnaethom holi hefyd a oedd gennych unrhyw awgrymiadau eraill ar ffyrdd y gallem arbed arian neu gynhyrchu incwm o fewn themâu cynlluniau'r Cyngor sef yr Economi, Pobl, Lle a Sefydliad.

Dywedoch Chi:

- Dylem fod yn lleihau costau a threuliau cynghorwyr yn hytrach na gwneud arbedion i'r gyllideb, yn ogystal â lleihau costau staff drwy leihau cyflogau a'r nifer o reolwyr o fewn y Cyngor
- Dylai'r Cyngor ddiddymu rôl y Maer
- Rhannu / cyfuno gwasanaethau gyda Chynghorau a Sefydliadau eraill pan fydd hynny'n bosibl
- Ystyried arbedion mewnol megis lleihau costau staff
- Dylem fuddsoddi arian yng nghanol y dref i annog mwy o fusnesau ac felly lleihau'r nifer o siopau gwag yng nghanol y dref

Gwnaethom Ni:

Mae cyflogau cynghorwyr yn cael ei bennu gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i sicrhau dull cyson cenedlaethol o dalu cydnabyddiaeth i aelodau. Ni chaniateir i Gynghorau bennu lwfansau y tu hwnt i'r graddau a argymhellir gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol.

Mae strwythur uwch reolwyr Wrecsam ymhlith rhai o'r lleiaf yng Nghymru, yn dilyn ailstrwythuro diweddar i uwch reolwyr. Byddai ei leihau ymhellach yn cyflwyno risgiau llywodraethu sylweddol

Nid yw'n bosibl diddymu rôl y maer yn gyfreithiol, fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi bod yn lleihau'r gwariant cyffredinol yn y blynyddoedd diwethaf ac mae'n parhau i fanteisio ar gyfleoedd i gyflawni mwy o arbedion wrth ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Rydym wedi, a byddwn yn parhau i geisio rhannu gwasanaethau gyda sefydliadau eraill yn weithredol mewn nifer o feysydd gwasanaeth.

Mae costau staffio, sef gwariant unigol mwyaf y Cyngor, yn parhau i fod yn ffynhonnell sy'n cael ei hadolygu er mwyn sicrhau effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd o ran costau.

Mae adfywio Canol Tref Wrecsam yn flaenoriaeth allweddol i Strategaeth Ffyniant Economaidd y Cyngor, gyda datblygiad Prif Gynllun a buddsoddiadau mewn prosiectau megis Tŷ Pawb sy'n gatalydd ar gyfer buddsoddiadau pellach. Rydym yn gweithio hefyd gyda pherchnogion eiddo yng Nghanol Tref Wrecsam mewn ymgais i wella'r eiddo a lleihau'r nifer o eiddo gwag. Mae yna nifer o gynlluniau yn bodoli yn awr i gynorthwyo perchnogion gyda gwelliannau. Hefyd mae nifer o ddigwyddiadau wedi'u trefnu ar gyfer canol y dref drwy'r flwyddyn er mwyn denu pobl i ganol y dref er mwyn cynyddu nifer yr ymwelwyr i helpu i wella'r ddelwedd o Wrecsam fel cyrchfan ddeniadol.

Nid yw'n bosibl diddymu rôl y maer yn gyfreithiol, fodd bynnag, mae'r Cyngor wedi bod yn lleihau'r gwariant cyffredinol yn y blynyddoedd diwethaf ac mae'n parhau i fanteisio ar gyfleoedd i gyflawni mwy o arbedion wrth ddarparu'r gwasanaeth hwn.

Y DRETH GYNGOR

Roeddem yn cynnig:

Cyllid cyflawn y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2017/18 oedd £225 miliwn, a oedd yn cynnwys £169 miliwn o gyllid gan Lywodraeth Cymru a £56 miliwn o'r Dreth Gyngor.

O ystyried yr her ariannol yr ydym yn parhau i'w hwynebu, a'r gofyniad cynyddol i wneud arbedion ac adolygu ein gwasanaethau, byddem unwaith yn hoffi gwybod eto beth yw eich barn ar gynyddu'r Dreth Gyngor. Mae Llywodraeth Cymru'n dweud y gall Awdurdodau Lleol gynyddu'r Dreth Gyngor o uchafswm o 5%, a fyddai'n golygu cynnydd o £52.60 y flwyddyn yn Wrecsam (neu £1.01 yr wythnos) ar gyfer eiddo Band D.

Byddai cynyddu'r dreth gyngor o 5% (yn hytrach na'r 3% a fwriedir eisoes) yn cynhyrchu tua £910,000 y flwyddyn o incwm ychwanegol (a fyddai'n lleihau'r swm o arian y mae angen i ni ei arbed o wasanaethau eraill).

Pa un o'r opsiynau eraill fyddai'n well gennych chi?



Dywedoch Chi:

- Ni ddylid cynyddu'r dreth gyngor oherwydd mae'r Dreth Gyngor eisoes yn rhy uchel
- Dylai'r cynnydd fod yn unol â chynnydd i gyflogau
- Rydych yn cytuno i gynnydd ac yn cefnogi talu mwy pe byddai hynny'n golygu bod gwasanaethau'n cael eu diogelu
- Mynegwyd pryder ynglŷn â fforddiadwyedd cynnydd oherwydd bydd yn rhoi pwysau ariannol ychwanegol ar unigolion a theuluoedd
- Nid ydych yn cael gwerth am arian ar gyfer eich treth gyngor ac rydych yn anhapus am y gwasanaethau presennol

Gwnaethom Ni:

Fe ymgynghorodd y Cyngor ar gynnydd i'r Dreth Gyngor ar lefel uwch na'i Gynllun Ariannol Tymor Canolig – cynnydd o hyd at 5%. Yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad cynyddodd yr uchafswm cynnydd i'r Dreth Gyngor yn Lloegr i 6%. Mae nifer o Gynghorau yng Nghymru sy'n cynyddu'r Dreth Gyngor ar lefel uwch na 3%. Fe adolygodd y Cyngor y cynnig ac mae wedi cyfyngu'r cynnydd i lai na hanner y gwahaniaeth rhwng 3% a 5%. Mae wedi pennu'r cynnydd treth i 3.9%. Bydd Wrecsam yn parhau i fod yn un o'r awdurdodau treth isaf yng Nghymru a Lloegr.

Mae'r wybodaeth yn y llyfryn hwn ar gael mewn fformatau eraill ac mewn ieithoedd eraill ar gais.

I ofyn am y ddogfen hon mewn fformat arall neu mewn iaith arall dylech anfon e-bost at

telluswhatyouthink@wrexham.gov.uk

neu anfon llythyr at:

Tell us what you think
3rd Floor Annex
The Guildhall
Wrexham
LL11 1AY

Os ydych am ddarllen yr holl fanylion am y cynigion a wnaed gan y Cyngor, a chanlyniadau'r ymgynghoriad, gallwch ddod o hyd i adroddiad llawn yn www.wrexham.gov.uk/cyllideb

Os oes gennych ddiddordeb mewn cymryd rhan mewn mwy o ymgynghoriadau a gadael i Gyngor Wrecsam wybod beth yw eich barn, beth am gofrestru ar gyfer canolbwynt ymgysylltu newydd BGLl Wrecsam

Your Voice Wrexham www.yourvoicewrexham.net

wrexham
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
wrecsam